# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 1af o Ebrill 2021 am 7.30 pm drwy fynychu o bell

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Lumley (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies, Arwel Jones, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas a Ray Williams. Denfer Morgan (Clerc).

**386 Ymddiheriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Dai Evans, Helen Evans, Iwan Thomas a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am beidio a bod yn bresennol yn y cyfarfod .

**387 Wefibre – Gwasanaeth Band Eang Mewn ardaloedd Gwledig**

Rhoddwyd croeso gan y Cadeirydd i Neil Davies a Rob Meyer, sef Rheolwyr Cymunedol gyda Wefibre.
.
Cafwyd esboniad manwl o'r cynllun a gyflwynwyd gan y Llywodraeth a oedd â'r nod o ehangu'r gwasanaeth band eang system ffibr i gymunedau gwledig. Nodwyd y gwahanol ardaloedd lle roedd y cynllun yn mynd yn ei flaen yng Ngheredigion.

Dywedwyd bod angen cant o gartrefi i gofrestru cyn ei fod yn fforddiadwy i'r Cwmni ystyried dechrau'r broses o gyflwyno gwasanaeth o'r fath mewn ardal penodedig. O fwrw mlaen gyda chynllun, esboniwyd y broses y byddai'n cael ei ddilyn a'r gofynion ar y darpar ddefnyddwyr. Roedd taleb y Llywodraeth yn talu am y gost o'i osod mewn cartrefi a'r tâl misol wedyn oedd £20. Roedd pobl yn gallu cofrestru diddordeb mewn cymryd rhan mewn cynllun drwy fynd ar wefan y Cwmni wefibre.com/grants. Roedd yna hefyd pecyn i fusnesau.

Nodwyd fod cynllun o'r fath yn mynd yn ei flaen mewn cymunedau cyfagos ac y gellid ystyried cynllun ar gyfer ardal Cilcennin / Ciliau Aeron / Dihweyd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

a) cytuno fod y Cyngor Cymuned yn ystyried cymryd y cyfrifoldeb o fod yn bencampwr lleol ar gyfer cyflwyno cynllun yn yr ardal; a
b) gofyn i Wefibre ddarparu gwybodaeth er mwyn ei rannu yn y gymuned er mwyn yn ceisio codi diddordeb mewn cynllun.

**388 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Mawrth 2021.

**389 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r tanysgrifiad blynyddol i Un Llais Cymru yn y swm o £143.

**390 Cystadleuaeth Poster Cŵn yn Baeddu**

Dywedodd y Cynghorydd Alwen Thonas eu bod wedi rhannu'r gwaith celf a dderbyniwyd gan blant Ysgol Ciliau Parc gyda'r Cynghorydd Iwan Thomas er mwyn dewis tri i'w gwobrwyo.

Cytunwyd gwobrwyo'r tri £10 yr un i'r buddugwyr a thrafod y modd o argraffu yn y cyfarfod nesaf.

**391 Mynwent Eglwys Cilcennin**

Dywedodd y Clerc ei fod mewn cysylltiad gyda'r Cynghorydd Iwan Thomas ar y mater a **PHENDERFYNWYD** bwrw mlaen ar y cyd gyda'r Eglwys yn lleol gyda'r cais i gael gafael ar y darn o dir dan sylw er mwyn ymestyn y fynwent.

**392 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

Nododd sawl Aelod problemau gyda sbwriel ar wahanol ffyrdd ar hyd a lled y Gymuned a gofynwyd i'r Clerc ddilyn hwn i fyny.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:20pm